

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Llanfachreth  
Nos Fawrth, Tachwedd 19, 2019 am 7:30 o'r gloch.**

[www.cyngorllanfachreth.cymru](http://www.cyngorllanfachreth.cymru)

**Presennol** Cyngorwyr: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Meurig Ashton, Karen G. Goswell, Huw A. Evans, Gerallt Griffith, Emlyn Roberts, Rhun Prys Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb oedd yn bresennol. Diolchwyd Meurig Ashton am gadeirio'r cyfarfod mis Hydref.

**2. Ymddiheuriadau:** Mordaf Roberts.

**3. Datgan diddordeb.**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 15, 2019**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 15, 2019**

Eitem 6.ch. Llythyr (17/9/2019) oddi wrth Mr a Mrs R. Jones, Cymagwern, Rhydymain yn mynegi eu pryder ynglŷn â goryrru ar ffordd A4949. Derbyniwyd y llythyr wedi i lythyr cael ei anfon i Lywodraeth Cymru; roedd y llythyr yn cynnwys materion codwyd gan Mr a Mrs Jones..

Llythyr ateb (25/10/2019 a 8/11/2019) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn cynnwys plan yn dangos eu cynllun i roi cyfyngiad cyflymder Rhan-Amser 40mya ar hyd yr A494 yn Rhydymain; mae hyn wedi ei ddatblygu fel rhan o raglen Ffyrdd Diogel i Gefnffordd Ysgolion. Bydd y cyfyngiad cyflymder 40mya yn gweithio ar adegau am tua hanner-awr yn ystod dychwelyd i'r ysgol a gadael yr ysgol. Maent o'r farn nid yw'n addas cael cyfyngiad cyflymder Rhan-Amser 20mya ar ran hon o'r ffordd oherwydd risg o drafnidiaeth yn gyrru'n beryglus.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd gwrthod y cynllun. Mae angen cyfyngiad cyflymder rhan-amser 20mya fel sydd yn Llanuwchllyn. Hefyd, mae angen i rieni a dysgwyr cael asesiad diogelwch y ffordd. Penderfynwyd rhoi gwybod hyn i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru; Lywodraeth Cymru; Prifathro Ysgol Idris a Mr a Mrs R. Jones.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION TACHWEDD 19, 2019

Llythyr ateb (11/11/2019) oddi wrth Arweinydd Tîm Priffyrdd, Llywodraeth Cymru. Maent yn rhoi gwybod mae cynllun yn cael ei baratoi gosod terfyn cyflymder o 40mya yn rhan amser (yn ystod oriau agor a chau'r ysgol) ar yr A494 ac mi fydd yn cael ei weithredu cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Os mae pryderon gyda goryrru i ni gysylltu â Gan Bwyll. Os mae pryderon am ddiogelwch cerddwyr mae'n bosib asesu'r diogelwch cerdded i'r ysgol; mae cyfeiriad yn cael ei roi fel lle cyswllt. Gall yr asesiad cael ei wneud gan yr awdurdod lleol.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Eitem 10.b. Llythyr ateb (25/10/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

1. bydd y llwybr lle mae angen camfa newydd rhwng Ysgol Rhydygorlan a Y Cyplau yn cael ei archwilio.
2. mae ein cais i docio gwrychoedd sy'n cuddio tri arwydd '30' ar ffyrdd sy'n arwain i Llanfachreth wedi cael ei anfon i'r gweithlu i wneud y gwaith.
3. mae ein cais i lefelu wyneb Ffordd Lefel rhwng mynedfa i Bryn Prydydd a chroesffordd Llanfachreth / Ganllwyd / Glastir / Hermon wedi ei anfon i'r perchennog y tir iddo ddelio gyda'r coed.

Eitem 5. Eitem 10.b. Llythyr ateb (9/10/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

1. Bydd gwaith ysgubo yn cael ei wneud ar ffordd Bontnewydd i Rhedyncochion.
2. Mae ein cais am arwydd HERMON wedi ei gyfeirio i'r uned Draffig.

Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth Swyddog yn uned Draffig yn rhoi gwybod ni allant roi arwydd HERMON oherwydd mae'r enw yn cyfeirio at ardal ac nid pentref / tref.

## **6. Gohebiaeth**

a. Llythyr 22/10/2019) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith ailwynebu a gwrth lithro (anti-skid) yn cael ei wneud ar ffordd B4416 ger Dolgamedd, Brithdir.

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (14/10/2019) yn amgau llythyr (1/10/2019) oddi wrth BT yn rhoi eu rhaglen i ddileu rhai ffonau cyhoeddus. O'r rhestr ymgaeedig nid oes ffonau cyhoeddus yn y gymuned yn cael eu henwi.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION TACHWEDD 19, 2019

b. Cais cynllunio NP5/54/137D. Trosi tŷ gwair agored annecs preswyl. Tir Mab Cynan, Brithdir. LL40 2RW

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

**8. Materion Ariannol**

a. Llythyr (15/10/2019) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol Llywodraeth gyda drafft o'r Adroddiad Blyneddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021.

Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.

Yn yr adroddiad gall unigolyn wrthod derbyn taliadau yn rhanol neu'n llwyr os ydynt yn dymuno a gwneud hynny trwy ysgrifennu'n bersonol at y swyddog priodol.

Taliadau tuag at gostau a threuliau:

Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w haelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau.

Ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth:

Mae opsiwn gan bob cyngor i ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth. Lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi 45c y filltir.

b. Bil (23/10/2019) am £150.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at daliad gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer cyfrifon 2018/2019.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Llythyr (6/11/2019) oddi wrth Dawns i Bawb, Caernarfon. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Bil (17/11/2019) am £217.10 oddi wrth Swyddfa Archwiliad Cymru. Mae'r taliad am Archwiliad o Gyfrifon 2018/19 y Cyngor gwnaethpwyd gan BDO. (Llynedd roedd y bil am £456.00).

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Hydref, 2019: £1,139.89.

dd. Balans yn y banc ar 29 Hydref, 2019: £4,854.94.

e. Anfonwyd copi o 'Sefyllfa ariannol y Cyngor sy'n debygol am weddill y flwyddyn gan ddefnyddio ffigyrau 2018-2019' i'r aelodau.

Roedd yr aelodau yn fodlon gyda'r adroddiad. **Ond bydd angen cymryd gofal ni fydd y Cyngor mewn dyled ar ddiwedd y flwyddyn.**

**9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

a. Llythyr ateb (15/10/2019) oddi wrth Ken Skates AC, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ynglŷn â goryrru ar ffordd A494 yn Rhydymain. Maent yn dweud nid oes adolygiad o derfyn cyflymder ar y ffordd hon ger yr Hen Hufenfa oherwydd mae'r cyflymder sy'n cael ei nodi yn is na'r terfyn cyflymder. Maent awgrymu inni gysylltu â GoSafe ynglŷn â'r mater. Ynglŷn â'r Ysgol nid yw'n addas cael terfyn cyflymder arfaethedig o 20mya; mae cynllun manwl yn cael ei baratoi i gael 40mya rhan amser ac mae'n gobeithio bydd codi'r arwyddion cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

Gweler Eitem 5, Eitem 6.ch. uchod.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Cyngor Gwynedd:

1. mae angen canllaw o gat Eglwys Llanfachreth i'r ffordd.
2. mae angen agor cwter sydd wedi cau wrth fynedfa Tyddyn Llywarch, Llanfachreth – Adran Priffyrdd.
3. mae angen symud arwyddion '30'mya wrth Capel Brithdir i ochr draw i Ysgol Seren Fach, Brithdir – Adran Priffyrdd.
4. mae llechi ar do Tŷ Siop, Llanfachreth ar fin llithro i'r ffordd – Adran Rheolaeth Adeiladau.
5. beth sy'n digwydd ynglŷn â thenantiaeth Tanybryn, Rhydymain – Adran Tai ac Eiddo.

**10. Unrhyw fater arall**

a. Mae angen cadarnhau Rhaglen Asesiad Risg. Anfonwyd copi i'r aelodau.

Roedd yr aelodau yn fodlon gyda'r Rhaglen.

Llofnod:

Dyddiad: